Pecyn Croeso TAR Saesneg: 2019-20

Helo bawb

Llongyfarchiadau ar ennill eich lle ar y rhaglen. Croeso cynnes iawn i chi i Raglen TAR Saesneg.

Bydd hi'n flwyddyn brysur, gyffrous a heriol. Bydd y tasgau a amlinellir isod yn eich helpu i baratoi ar gyfer y cwrs. Cwblhewch y rhain erbyn 31 Awst 2019.

1) **CADARNHAU'CH LLE**
   Ar ôl i chi dderbyn y pecyn hwn, anfonwch e-bost ataf ar jkneen@cardiffmet.ac.uk i gadarnhau eich bod yn dechrau gyda ni ym mis Medi 2019.

2) **DARLLEN LLENYDDIAETH PLANT**
   A ninnau'n athrawon darllen, mae angen i ni fod yn ddarllenwyr. Darllenwch amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n addas i bobl ifanc, e.e.
   - y 'clasuron'
   - ffuglen gyfoes
   - ffuglen sydd wedi ennill gwobrau (e.e. https://www.carnegiegreenaway.org.uk/archive.php?medal=carnegie)

   Chwiliwch Good Reads i gael ysbrydoliaeth (https://www.goodreads.com/list/tag/childrens)

   Y nod yw hybu'ch gwybodaeth am lyfrau cyn i chi gamu i'r ystafell ddosbarth, felly ceisiwch ddarllen amrywiaeth.

3) **YSGRIFENNU – A SAGA BYR**
   A ninnau'n athrawon ysgrifennu, mae angen i ni fod yn ysgrifenwyr, felly beth am ddechrau arni. Ysgrifennwch saga fer 50 gair – mewn 50 gair yn union. Dewiswch chi'r thema/ffocws/pwnc/genre. Darllenwch yr erthygl hon am beth yw saga fer: http://www.telegraph.co.uk/culture/4718163/A-thousand-ideas-in-fifty-words.html.
   Anfonwch eich saga fer ataf i drwy'r e-bost (jkneen@cardiffmet.ac.uk) erbyn diwedd Awst. (Chwarae â geiriau yw diben hyn, felly mwynhewch yr her!)

4) **DARLLEN AM ADDYSGU**
   E.e. mynnwch gipolwg ar un o'r canlynol:
   - Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2016) *Learning to teach in the secondary school*, 7th edn. London: Routledge.
   - Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, 3rd edn. Cheltenham: Nelson Thornes.
   - Muijs, D. and Reynolds, D. (2010) *Effective teaching: evidence and practice*, 3rd edn. London: Sage.

Darllenwch am addysgu Saesneg, e.e.

- Clarke, S., Dickenson, P. and Westbrook, J. (2009) *The complete guide to becoming an English teacher*, 2nd edn. London: Sage.
- Wright, T. (2012) *How to become a brilliant English teacher*. 2nd edn. Abingdon: Routledge.

5) PORI GWEFANNAU

Bydd rhai gwefannau'n ddefnyddiol iawn i chi. Manteisiwch ar y cyfle i bori'r rhain nawr.

- NATE (National Association for the Teaching of English) https://www.nate.org.uk/
  UKLA (UK Literacy Association) https://ukla.org/
- National Literacy Trust http://www.literacytrust.org.uk/
- Y Llyfrgell Brydeinig (Edrychwch ar yr adran 'Discover') http://www.bl.uk/
- Y cwricwlwm – dechreuwch ddarllen am rai o'r newidiadau sy'n digwydd yn y cwricwlwm: https://llyw.cymru/cwricwlwm-gymru-2022

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich sagâu byrion ac at drafod eich gwaith darllen ym mis Medi.

Mwynhewch y tasgau a mwynhewch yr haf.

Cofion gorau

Judith

Dr Judith Kneen
Arweinydd y Rhaglen